**Sinema Awyr Agored Amodau ac Telerau**

Mae'r Amodau a Thelerau canlynol yn berthnasol i bob person sy'n ymweld â'r Cae Lacrosse neu'r Amffitheatr at ddibenion Theatr Awyr Agored

**Yn y Lleoliad**

- Mae'n rhaid bod gan bob person sy'n mynd i'r Theatr Awyr Agored docyn dilys y mae'n rhaid ei gadw ar bob adeg a'i gyflwyno i'w archwilio gan unrhyw aelod o staff os oes angen. Gall methu dangos tocyn dilys ar gais arwain at ofyn i unigolion adael y safle.
- 
  2. Lle mae prisiau tocynnau yn amrywio yn ôl oedran a pherfformiad. Mae'r darpariaethau canlynol yn berthnasol:
  Caiff person sy'n 16 oed ac yn hŷn ei ystyried yn oedolyn.
  Caiff person rhwng 3 ac 15 oed ei ystyried yn blentyn; ac
  ar gyfer plant dan 3 oed, ni chodir tâl mynediad

- Cynhelir y digwyddiad ar safle maes glas a gall y tir fod yn anwastad. Byddwch yn ofalus wrth symud o gwmpas y safle, yn enwedig gyda chadeiriau olwyn a bygis.

- Mae Cyngor Abertawe'n cadw'r hawl i wrthod mynediad i ddeiliaid tocynnau i'r lleoliad dan amgylchiadau rhesymol, sy'n cynnwys pryderon iechyd a diogelwch, amgylcheddol neu ddiogelwch, rhesymau trwyddedu, neu os yw tocyn yn annilys. Mae Cyngor Abertawe hefyd yn cadw'r hawl i ofyn i ddeiliaid tocynnau adael y lleoliad ar unrhyw adeg ar sail resymegol a gall gymryd unrhyw gamau gweithredu priodol i orfodi'r hawl hon heb ad-daliad.

- Nid yw tocynnau'n caniatáu i ddeiliad y tocyn ddychwelyd i'r maes unwaith y bydd wedi gadael drwy'r gatiau.

- Rhaid i blant dan 16 oed fod yng nghwmni oedolyn.

- Ni chaniateir smygu yn unrhyw le yn yr ardal gynhyrchu, mae hyn yn cynnwys e-sigaréts/fêps

- Gall deiliaid tocynnau fynd i'r digwyddiad gyda'u picnics eu hunain, mae hyn yn cynnwys diodydd alcoholig, blancedi picnic, cadeiriau etc.  O ran diogelwch, peidiwch â dod ag eitemau gwydr, barbeciws, canhwyllau na ffaglau wedi'u cynnau. (Yn unol â rheoliadau trwyddedu, rhaid i ddeiliaid tocynnau fod dros 18 oed i yfed alcohol yn y lleoliad).

- Mae Cyngor Abertawe'n cadw’r hawl i wrthod mynediad i unrhyw berson yn ôl ei ddisgresiwn ei hun. Mewn amgylchiadau o'r fath, ni roddir ad-daliadau.

- Mae Cyngor Abertawe'n cadw'r hawl i wneud unrhyw addasiadau i'r manylion a hysbysebir ar gyfer y perfformiad.

- Mae deiliaid tocynnau'n rhyddhau'r trefnwyr (Cyngor Abertawe) o unrhyw atebolrwydd am golled neu ddifrod i eiddo personol a all ddeillio o'r digwyddiad. Ac eithrio'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, ni fydd unrhyw atebolrwydd ar y trefnwyr i ddeiliaid tocynnau.

- Mae deiliaid tocynnau'n rhoi caniatâd i gael eu ffilmio, i gael eu lluniau wedi'u tynnu a'u recordio ac yn deall efallai y gall ffotograffau, ffilmiau neu recordiadau gael eu darlledu, eu cyhoeddi, eu trwyddedu neu eu defnyddio am byth (heb daliad).

- Mae deiliaid tocynnau'n cytuno y bydd unrhyw ddelweddau, fideos neu recordiadau sain a geir yn y digwyddiad yn cael eu defnyddio at ddibenion preifat a domestig yn unig ac ni allant gael eu defnyddio at unrhyw ddibenion masnachol, ar y rhyngrwyd neu fel arall.

- Ni all deiliaid tocynnau gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd y mae trefnwyr yn ystyried ei bod yn ymwneud â marchnata neu hysbysebu anawdurdodedig (gan gynnwys, er mwyn osgoi amheuaeth, marchnata unigol neu grŵp). Mae gan y trefnydd yr hawl i wrthod mynediad, neu i ofyn i rywun adael y lleoliad os nad yw'n cydymffurfio â'r cyfyngiad hwn.

- Ni chaniateir cŵn ar y safle, ac eithrio cŵn tywys cofrestredig.

**Tocynnau**

- Ni chaiff tocynnau eu gwerthu (gan gynnwys ocsiwn) na'u hysbysebu i'w gwerthu. Ni ellir defnyddio tocynnau at ddibenion hysbysebu, hyrwyddo, codi arian na marchnata (gan gynnwys mewn cystadlaethau a swîps).

- Mae deiliaid tocynnau yn deall y gall y trefniadau ar gyfer y digwyddiad gael eu heffeithio gan amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y trefnwyr, a all arwain at oedi, gohirio neu ganslo'r digwyddiad heb rybudd, ni fydd gan y trefnwyr unrhyw atebolrwydd i ddeiliaid tocynnau o ran y fath oedi, ohirio neu ganslo.

- Os bydd rhaid canslo, gwneir pob ymdrech i aildrefnu'r digwyddiad ar ddyddiad arall. Mewn amgylchiadau o'r fath, ni roddir ad-daliadau ar gyfer y dyddiad gwreiddiol. Os nad oes modd aildrefnu'r digwyddiad, bydd tocynnau'n cael eu had-dalu o'r ffynhonnell brynu yn ôl eu hwynebwerth. Ni roddir ad-daliadau mewn perthynas â ffioedd archebu na chostau postio.

- Codir ffi archebu o 5.7% ar gyfer pob tocyn wrth archebu.

**Polisi Tywydd Gwlyb ar gyfer y Theatr Awyr Agored**

- Yn gyffredinol, ni fydd glaw yn atal perfformiadau; byddant yn mynd yn eu blaenau o hyd yn ôl yr amserlen. Fodd bynnag, cynghorir yr holl ddeiliad tocynnau i gynllunio ar gyfer tywydd gwlyb.

- Bydd perfformiad ond yn cael ei ganslo os bydd amodau'r tywydd, ym marn y trefnwyr, yn peryglu iechyd a diogelwch.
- Os caiff perfformiad ei ganslo, ar nad yw hyn yn debygol, caiff gwybodaeth ei phostio ar:

Wefan y digwyddiad yn www.croesobaeabertawe.com

Twitter yn @BaeAbertawe @cyngorabertawe

Facebook yn www.facebook.com\visitswansea

- Gwneir pob ymdrech i gysylltu â chwsmeriaid sydd wedi archebu ymlaen llaw, ond eu cyfrifoldeb nhw yw gwirio gwefan y digwyddiad i gadarnhau'r sefyllfa.
- Sylwer: oherwydd amodau tywydd sy'n newid, mae digwyddiadau'n debygol o gael eu canslo ar fyr rybudd.

- Os caiff perfformiad ei ganslo cyn yr amser dechrau a gafodd ei hysbysebu neu ar unrhyw adeg cyn hanner ffordd drwy'r perfformiad, caiff perfformiad arall o werth cyfartal ei gynnig. Os na fydd y cyngor yn gallu cynnig perfformiad arall, caiff gwerth enwol y tocyn ei ad-dalu o'r man prynu.

- Os caiff y digwyddiad ei ganslo yn ystod ail hanner y perfformiad, ni chynigir ad-daliadau neu berfformiadau eraill.